

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol

Rhif: 32/2012



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Gwerthusiad o Adroddiad Interim Cyntaf y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd

Gwerthusiad o Adroddiad Interim Cyntaf y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd

SQW
Graham Thom
Director

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru'n rhannu'r farn honno o reidrwydd

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag:

Janine Hale

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 6539

Ebost: janine.hale@cymru.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010

ISBN 978 0 7504 7947 9

© Hawlfraint y Goron 2012

Crynodeb Gweithredol

1. Penodwyd SQW gydag Ipsos MORI a'r Athro Geoff Lindsey o'r Ganolfan ar gyfer Datblygiad, Gwerthusiad ac Ymchwil Addysgol (CEDAR) ym Mhrifysgol Warwick i gynnal gwerthusiad o'r model Astudiaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd (GICD) ym mis Awst 2010. Yn yr adroddiad hwn ceir y casgliadau ynglŷn â sefydlu a chamau cynnar y model GICD, **yn cwmpasu'r cyfnod hyd at fis Medi 2011.**

GICD: Y model

2. Mae'r rhaglen GICD yn canolbwyntio ar gynorthwyo teuluoedd ag anghenion cymhleth, lle gall plentyn/plant fod mewn perygl o ganlyniad i broblemau camddefnyddio sylweddau gan rieni. Tîm amlasiantaeth yw'r Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd (TICD) a'i fwrriad yw darparu ymyriadau i rai o'r teuluoedd sydd fwyaf agored i niwed ac mewn mwyaf o berygl, a chefnogi datblygiad gweithlu gyda sgiliau da. Ym mhob ardal leol darperir y gwasanaeth gan dîm sydd newydd ei recriwtio. Cyflogir y tîm gan yr awdurdod lleol a bydd yn adrodd i fwrdd sydd ag ystod o bartneriaid yn cynnwys yr heddlu a'r gwasanaethau iechyd. Mae'r gwaith gyda theuluoedd wedi ei strwythuro o amgylch dau gam.

- Cam 1 Ymyriad Dwys - disgwylir iddo bara rhwng pedair a chwe wythnos
- Cam 2 Cynnal y Cynllun Teulu - yn ystod Cam 2 bydd y teulu, gweithiwr blaen IFS a chydgyssylltwyr achosion ar gyfer oedolion a phlant yn cydweithio i ddarparu ymyriadau proffesiynol a ystyrir yn angenrheidiol er mwyn i'r teulu barhau mewn proses newid gadarnhaol er mwyn bodloni amcanion y Cynllun Teulu.

Ardaloedd Arloesi yr IFSS

3. Mae tair Ardal Arloesi GICD yng Nghymru - Casnewydd, Rhondda Cynon Taf / Merthyr Tudful (fel consortia) a Wrecsam. Maent i gyd wedi eu cynnwys yn y gwerthusiad, er yn yr adroddiad rydym wedi ceisio gwneud yr ardaloedd yn ddienw drwy gyfeirio atynt, nid mewn unrhyw drefn arbennig, fel Safleoedd 1-3. Mae'r data'n awgrymu bod maint yr angen yn amrywio'n sylweddol rhwng y tair Ardal Arloesi, er bod y timau ICD o faint tebyg. Fodd bynnag, yn y tymor byr fel gwasanaeth newydd gellir rhagweld y byddai digon o angen/galw cudd am gymorth ymhlith y boblogaeth i greu digon o atgyfeiriadau er mwyn defnyddio'r gallu presennol.

Gweithredu'r GICD

4. Mae'r tair Ardal Arloesi yn teimlo bod ganddynt ar y cyfan y cymysgedd sgiliau cywir ar waith nawr (mae gan y timau fwyafrif staff sydd â chefnidir mewn gwaith cymdeithasol). Amlygwyd dau bwynt dysgu pwysig:
 - Yr angen posibl am gynnwys arbenigwr anawsterau dysgu oedolion o fewn y timau

- Yr angen am weithiwr cymdeithasol o'r gwasanaethau oedolion yn y tîm er mwyn bodloni'n llawn anghenion teuluoedd.
5. Roedd hefyd peth ansicrwydd ynglŷn â chydbwysedd tasgau a osodwyd ar gyfer y Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol (CSW, swydd newydd a grëwyd drwy'r GICD). Efallai y bydd y cydbwysedd rhwng rolau yn newid, o bosibl dod yn fwy gweithredol.
 6. Mae profiad yr Arloeswyr parthed **recriwtio staff** wedi amrywio. Dechreuodd Arloeswr Safle 1 ei broses recriwtio ym mis Mai 2010 gyda chyfweliadau'n cael eu cynnal ym misoedd Mehefin a Gorffennaf 2010. Defnyddiwyd proses recriwtio drylwyr, gan ymgorffori canolfan asesiad yn cynnwys cyfweliadau a gwahanol brofion sgilau a seicometreg, oedd yn ôl staff yn heriol ac i ryw raddau yn frawychus, ond o edrych yn ôl rhoddodd yr hyder iddynt fod ganddynt y sgiliau cywir i wneud y swydd.
 7. Mabwysiadwyd dull mwy safonol, ond efallai llai cyfannol, tuag at recriwtio yn y safleoedd eraill. Yn dilyn hynny cawsant anhawster i ddenu ymgeiswyr addas, ac yn ddiweddarach gyda chadw staff.
 8. Mae gan Ardaloedd Arloesi ddyletswydd i sefydlu Bwrdd Integredig Cymorth i Deuluoedd (BICD neu y Bwrdd). Mae'r tair Ardal Arloesi wedi sefydlu BICD, sydd erbyn hyn yn cyfarfod yn rheolaidd. Yn y tair ardal cefnogir y Byrddau gan Grŵp Gweithredu/Gweithredol/Llywio.
 9. Dywedodd y tri Arloeswr bod eu **Grwpiau Gweithredu yn fecanweithiau effeithiol ar gyfer datrys materion** a hyd yma ni fu angen mynd â materion gweithredol i lefel Bwrdd. Dywedasant hefyd bod ewyllys da ar lefel Bwrdd. Roedd y lefel dda hon o weithio mewn partneriaeth yn adlewyrchu'r: cysylltiadau rhwng yr unigolion dan sylw; ac awydd cyffredinol i gefnogi'r GICD. Os gellir cynnal y lefel dda hon o weithrediad, er ei bod yn gynnar o hyd, yna efallai y bydd yr angen am gytundeb Adran 58 (math o gytundeb lefel gwasanaeth rhwng yr TICD a'r rheiny sy'n darparu 'gwasanaethau cymorth teuluoedd' dan GICD), a oedd yn ofyniad i'r ardaloedd, yn llai nag a ddisgwylwyd. Fodd bynnag, efallai ei bod yn rhy gynnar i ddod i gasgliadau ac efallai y bydd angen gwerthuso hyn ymhellach.
 10. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu hyfforddiant ar gyfer yr TICD a mynychodd pob aelod o'r Tîm Craidd gwrs hyfforddiant pedwar diwrnod. Ar y cyfan, rhoddodd aelodau'r TICD adborth cadarnhaol ynglŷn â'r hyfforddiant, gan deimlo ei fod wedi eu gwneud yn frwdfrydig ar gyfer y gwaith oedd i ddod. Yn gyffredinol teimlai staff bod yr **hyfforddiant wedi eu paratoi'n ddigonol i ddechrau ar y gwaith o gyflenwi ond maent wedi gorfod gwneud defnydd sylweddol o'u profiad blaenorol**. Pwysleisiwyd bod yr ymagwedd bresennol at hyfforddiant wedi bod yn briodol, o gofio'r angen am staff profiadol gyda chymwysterau i lenwi rolau'r tîm craidd.
 11. Mae'r TICD wedi gweithio'n galed dros y 12 mis diwethaf i **fynd i'r afael ag ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ehangach o'r gwasanaeth**, yn arbennig ymhlith partneriaid atgyfeirio timau Gofal Cymdeithasol Plant. Mae nifer o

wersi'n amlwg o'r profiad hwn, yn arbennig bod lleoliadau a pherthynas yn bwysig, gan ei bod yn cymryd amser ac ymdrech i adeiladu proffil ac ymddiriedaeth.

Darparu IFSS

12. O'r 150 o asesiadau a gynhaliwyd, derbyniwyd 130 achosion ar y rhaglen GICD yn y flwyddyn gyntaf. Mae hyn yn cyfateb i 43% o'r 300 o achosion a ragwelwyd ar draws y tair ardal arloesi. Er gwaethaf y niferoedd llai nag a ragwelwyd cafodd rhai achosion eu gwrthod oherwydd diffyg niferoedd o fewn y tîm ar yr adeg benodol honno. Gan hyd yn oed ganiatáu ar gyfer cyfnod setlo yn ystod blwyddyn un, **yr arwyddion hyd yma yw na fyddai'r ffigur gwreiddiol o 100 achos ar gyfer pob ardal (y flwyddyn) yn gyraeddadwy gyda galw is yn gorwedd ochr yn ochr â'r cyfyngiadau a adroddir arnynt o ran cyflenwad.**
13. Wrth i'r rhaglen ddatblygu dywedodd y timau eu bod wedi dod fwyfwy **i'r farn y dylai'r 'argyfwng' (yr amser iddynt ymyrryd) gael ei ddiffinio o ran profiad y teulu.** Mae'r pwynt diffiniad hwn yn codi nifer o faterion diddorol ynglŷn ag amseru, yn arbennig yng ngoleuni materion niferoedd staff, ochr yn ochr â'r cais am farn broffesiynol ynglŷn â phwy gaiff gymorth a phwy gaiff ddim.
14. Mae'r Arloeswyr hefyd yn dod i gwestiynu am ba mor hir ddylai ymyrraeth ddwys Cam 1 fod. I rai roedd hyn yn cael ei weld fel cwestiynu penodoldeb y model, ond yn fwy eang mae gan yr Arloeswyr y cyfle i greu tystiolaeth ynglŷn â'r berthynas rhwng hyd y cam hwn a'r canlyniadau dilynol.
15. Mae'n rhy gynnar i farnu'r canlyniadau o'r GICD hyd yma. Mae'r ymyrraeth wedi ei chynllunio fel rhaglen 12 mis o gymorth ac er y cyrhaeddwyd diwedd cyfnod 12 mis cyntaf y ddarpariaeth, nid oes yr un teulu wedi cwblhau'r 12 mis llawn o ymyrraeth. Fodd bynnag, **mae data ac adborth ansoddol gan yr ardaloedd yn awgrymu bod trywydd cadarnhaol yn cael ei ddilyn gan deuluoedd a gynorthwywir.**
16. Ar y cyfan mae staff GICD yn dweud bod eu profiad o Gam 2 hyd yma wedi bod yn gyffredinol gadarnhaol. Mae gweithwyr blaen GICD yn amserlennu cyfarfodydd rheolaidd gyda'r teulu, gweithiwr cymdeithasol plant yr achos, gweithwyr cymdeithasol oedolion a gwasanaethau perthnasol eraill i adolygu cynnydd. Fodd bynnag, nodwyd bod trosiant uchel staff mewn timau gwaith cymdeithasol prif ffrwd wedi arwain at ymgysylltu anghyson gyda theuluoedd, yn arbennig dros gyfnod estynedig Cam 2 darpariaeth yr GICD.

Profiadau staff o ddarparu'r GICD

17. **Soniodd y staff am nifer o brofiadau cadarnhaol iawn, sy'n adlewyrchu ethos IFSS:**

- Roedd gan y staff **deimlad cryf o fod yn rhan o dîm**, i ba un yr oedd eu sgiliau'n hanfodol ac roeddent yn teimlo bod gan eu rôl lefel uchel o gyfrifoldeb
- Croesawu **canolbwyntio ar y teulu** yn gyfan yn hytrach na dim ond plant neu dim ond oedolion
- Gwerthfawrogi'r cyfle i **weithio'n ddwys gyda theulu** ac amser penodol i weithio drwy faterion gyda hwy
- Gweithio gyda theulu i **ddatrys problemau** (disgrifiodd un ymgynghorai hwn fel rhywbeth cadarnhaol nid negyddol)

Materion i'w hystyried

18. Mae'r adroddiad hwn wedi ystyried sut y rhoddwyd yr GICD ar waith a'i ddarpariaeth yn 12 mis cyntaf ei weithrediad. Mae adborth gan y tair ardal wedi bod yn gadarnhaol. Maent yn parhau'n gadarnhaol y bydd yr GICD yn arwain at well canlyniadau ar gyfer teuluoedd.
19. Fodd bynnag, mae nifer o feysydd yn parhau lle mae angen ystyriaeth bellach. Y pwyntiau allweddol i'r Arloeswyr eu hystyried wrth symud ymlaen yw:
- Trwygyrch achosion a'r goblygiadau ar gyfer y nifer staff wrth iddynt ddechrau ar gyfnod o 'gyflwr sefydlog'
 - Datblygu barn gliriach, broffesiynol am y mathau o deuluoedd ac ar ba bwynt 'argyfwng' y maent hwy'n meddwl y gall IFSS weithio
20. Mae'r cam dechreuol hefyd wedi amlygu nifer o bwyntiau ar gyfer ardaloedd GICD yn y dyfodol wrth iddynt geisio gweithredu model GICD:
- Gwers allweddol ar gyfer ardaloedd newydd yw gwerth buddsoddi ym mhroses recriwtio a sefydlu cychwynnol yr TICD
 - Pwysigrwydd cael y berthynas yn iawn, a rhaid i'r amser sydd ei angen ar gyfer gwneud hyn gael ei adeiladu i mewn i'r cam dechreuol ac yna ei atgyfnerthu dros yr wythnosau a'r misoedd cynnar.

Materion ac ansicrwydd ynglŷn â'r model cyflenwi

21. Mae'r materion a amlygir yn yr adran hon yn cyfeirio at natur y model a'r fframwaith polisi sy'n ei amgylchynu. Mewn nifer o achosion nid yw'r dystiolaeth yn dangos canlyniadau cryf hyd yma, ond yn hytrach yn cynnig pwyntiau y gallai Llywodraeth Cymru fod am eu hystyried wrth i'r datblygu fynd rhagddo. Y prif bwyntiau yn codi oedd:
- Os bydd y Byrddau'n parhau i weithredu'n dda heb Gytundeb A58 yna efallai y dylid ail-asesu'r angen amdanynt
 - Bydd angen ystyried y gyfradd a'r trwygyrch y gellir ei gyflawni ac ystyried goblygiadau hyn o ran lefel cyffredinol y galw ym mhob ardal
 - Mae'n debyg y bydd angen mireinio cymysgedd sgiliau a rolau swyddi'r TICD

- Wrth i'r Arloeswyr nodi'n fwy tynn eu grwpiau targed ar gyfer GICD mae cwestiwn o ddeall a oedd rhai o'r rheiny oedd yn cael eu heithrio mewn rhai ardaloedd mewn gwirionedd yn cael canlyniadau cadarnhaol mewn eraill; a pha gefnogaeth sy'n cael ei chynnig i'r rheiny sy'n disgyn y tu allan i'r amrediad hwn, ond sydd angen cymorth.

Materion ar gyfer y gwerthusiad

22. Cesglir tystiolaeth ar yr ystod o bwyntiau a nodir uchod drwy'r gwerthusiad, a fydd yn benodol yn ystyried:

- Modelau sy'n esblygu ar draws y tair ardal
- Barn teuluoedd